



Department
for Environment
Food & Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr

Dyddiad: Gorffennaf 2023

Fersiwn: Ymgynghoriad Cyhoeddus



Cynnwys

Crynodeb gweithredol	4
Rhagair.....	9
Cyd-destun.....	11
Nod tymor hir	11
Datblygu'r FMP	12
Cwmpas yr FMP Cregyn y Brenin a statws y bysgodfa cregyn bylchog.....	13
Rhywogaethau	13
Disgrifiad o'r bysgodfa	13
Statws presennol y bysgodfa	14
Rheoli pysgodfeydd ar hyn o bryd.....	14
Nodau rheoli pysgodfeydd	14
Disgrifiad o Amcanion y Cynllun Rheoli Pysgodfeydd.....	15
Amcanion rheoli penodol cregyn y brenin	15
Amcanion Rheoli.....	16
Amcanion Cregyn y Brenin	16
Ystyriaethau wrth ddatblygu dulliau rheoli.....	27
Rhyngweithiadau Offer	28
Strategaeth Rheoli Pysgodfeydd.....	28
Strategaeth Gyngaeafu.....	28
Dulliau Rheoli.....	29
Diben/ nodau	29
Dulliau rheoli arfaethedig; i gyflawni amcanion cynaliadwyedd blaenoriaethol yr FMP	30
Llinellau amser	31
Fframwaith Rheoli: Rheoli allbwn neu fewnbwn ar sail wyddonol (tymor byr i ganolig).....	32
Mesur: Cau/rheoli seiliedig ar ardal (tymor byr i ganolig).....	34
Mesur: Ystyried cydweddu mesurau'n gyffredinol lle bydd hynny'n arwain at fuddion amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd (tymor byr i ganolig).....	35

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr

Fframwaith Rheoli: Gweithio mewn partneriaeth (ar hyd oes y cynllun)	37
Rheoli a mynd i'r afael â risgiau amgylcheddol	39
Camau gweithredu ar gyfer lliniaru risgiau i gyfanwydd gwely'r môr.....	40
Gweithredu, monitro ac adolygu.....	40
Gweithredu.....	40
Monitro perfformiad.....	41
Adolygu a Diwygio'r FMP Cregyn Bylchog.....	42

Crynodeb gweithredol

Cyd-destun

Mae gan ddyfroedd Cymru a Lloegr rai o'r stociau pysgod môr gwyllt gorau yn y byd. Mae ein llywodraethau wedi ymrwmo i weithio gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau newid effeithiol a chydweithredol i reoli stociau cregyn y brenin yn gynaliadwy. Bydd y Cynllun Rheoli Pysgodfeydd (FMP) yn amlinellu cynigion a fframweithiau rheoli a fydd wedi'u seilio ar amcan y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd (JFS)¹ i gyflawni stociau cynaliadwy, amgylchedd morol iach a chefnogi sector pysgota ffyniannus a phroffidiol.

Mae rheoli pysgodfeydd yn gynaliadwy yn gofyn am reoli'r gwaith o gynaeafu i warchod ein stociau amrywiol. Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd (FMPs) yw'r polisi blaenllaw ar gyfer rheoli ein pysgodfeydd yn well. Maen nhw'n ofyniad canolog o Ddeddf Pysgodfeydd 2020² ac yn darparu offeryn i reoli gweithgarwch pysgota er mwyn cyflawni pysgodfeydd mwy cynaliadwy a sbarduno cynnydd tuag at y nod hwn.

Datblygwyd yr FMP hwn gan Weithgor Grŵp Ymgynghori'r Diwydiant Cregyn Bylchog (SICGWG) ar ran Defra a Llywodraeth Cymru. Mae adborth gan Grŵp Ymgynghori'r Diwydiant Cregyn Bylchog (SICG) ehangach a digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn ogystal â'r dystiolaeth a gasglwyd yn y cynllun hwn, wedi dangos bod angen rheoli ein pysgodfeydd cregyn y brenin (*Pecten maximus*) yn well. Nod yr FMP hwn yw cyfrannu at bysgodfeydd cregyn y brenin cynaliadwy ac a reolir yn dda yng Nghymru a Lloegr.

Beth yw FMP?

Cynllun gweithredu wedi'i seilio ar dystiolaeth yw FMP sy'n nodi trywydd tuag at gynnal neu adfer stociau pysgod cynaliadwy. Mae FMP yn amlinellu nodau ar gyfer y bysgodfa darged (neu'r pysgodfeydd targed), ynghyd â'r polisiâu a'r ymyriadau rheoli sy'n angenrheidiol i gyflawni'r nodau hyn. Bydd Defra a Llywodraeth Cymru yn defnyddio FMPs i fynd i'r afael â materion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sy'n gysylltiedig â'n pysgodfeydd, gan wella ein hymagwedd wedi'i seilio ar ecosystemau at reoli pysgodfeydd yn sylweddol. Bydd cynlluniau'n cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn ymateb i dystiolaeth newydd a phrofiad ymarferol er mwyn aros yn effeithiol.

¹ [Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd \(JFS\) 2022 Final.pdf \(publishing.service.gov.uk\)](#)

² [Deddf Pysgodfeydd 2020 \(legislation.gov.uk\)](#)

Pam FMP ar gyfer cregyn y brenin?

Mae cregyn y brenin wedi cael eu blaenoriaethu oherwydd bod y stociau mewn perygl o gael eu gorbysgota, gwerth economaidd y bysgodfa a diffyg tystiolaeth i asesu a monitro cyflwr y stoc yn briodol. Mae pysgodfeydd cregyn y brenin yn gwneud cyfraniad diwylliannol, cymdeithasol, ac economaidd at gymunedau arfordirol trwy gyflogaeth a buddiannau pysgota hamdden. Felly, mae angen camau rheoli ychwanegol i sicrhau bod pysgota am gregyn y brenin yn gynaliadwy trwy warchod y stoc i sicrhau eu dyfodol a dyfodol y diwydiant sy'n dibynnu arnynt.

Mae asesiadau wedi cael eu cynnal o'r stoc cregyn y brenin ers 2016. Mae angen rhagor o ddata i ategu'r asesiadau stoc presennol er mwyn amcangyfrif y biomas sydd ar gael yn gywir ar gyfer pysgota cynaliadwy.

Mae'r FMP hwn yn cyfuno gweledigaeth tymor hir i gyflawni Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf (MSY) neu brocsi tebyg sy'n adlewyrchu iechyd y stoc. Mae angen mesurau rheoli i gyrraedd a chynnal y nod hwn. Mae'r cynllun hwn yn dwyn ynghyd mesurau presennol ar gyfer cregyn y brenin a'r holl wyddoniaeth a thystiolaeth sydd ar gael. Mae'r cynllun yn amlygu lle y ceir bylchau yn y dystiolaeth a beth sy'n ofynnol i lenwi'r bylchau hynny i alluogi'r amddiffyniad angenrheidiol ar gyfer stociau yn awr ac yn y tymor hir.

Mae pysgota am gregyn y brenin yn effeithio ar yr amgylchedd, yn enwedig gwely'r môr. Mae'r FMP hwn yn cynnwys amcanion i sicrhau y deëllir yr effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â physgota am gregyn y brenin a, phan ystyrir bod pysgodfeydd llusgrwydo am gregyn y brenin yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd morol, bod camau'n cael eu cymryd i osgoi, unioni neu liniaru effeithiau o'r fath.

Rheolaeth bresennol

Mae cregyn bylchog yn stociau heb gwota nad ydynt yn ddarostyngedig i derfynau dal ar hyn o bryd. Mae ystod o fesurau rheoli eisoes ar waith mewn perthynas â physgodfeydd cregyn y brenin i warchod stociau a'r amgylchedd. Mae mesurau rheoli presennol yng Nghymru a Lloegr yn cael eu cymhwyso ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol, a lleol trwy drwyddedu pysgodfeydd³, deddfwriaeth ac is-ddeddfau. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys manylebau offer technegol, Maint Cyfeirio Cadwraeth Lleiaf (MCRS), trwyddedau neu hawlenni cregyn y brenin gydag amodau, cau tymhorol i warchod stociau silio, cau i warchod nodweddion gwely'r môr a therfynau ar ddiwrnodau pysgota ar y môr ar gyfer llongau 15m a mwy o hyd sy'n pysgota mewn ardaloedd

³ [Deall eich trwydded llong bysgota - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr penodol – y cyfeirir atynt fel system ymdrech y Dyfroedd Gorllewinol. Mae'r rhan fwyaf o gregyn y brenin yn cael eu dal gan ddefnyddio llusgrwydi sbring-lwythog sy'n cael eu tynnu ar hyd gwely'r môr; mae dulliau eraill yn cynnwys casglu â llaw trwy blymio a llusgrwydi ar drawstiau, lle mae cregyn bylchog yn cael eu dal fel sgil-ddalfa yn bennaf.

Nodau allweddol

Wrth ddatblygu'r FMP, cytunwyd yn gyffredinol nad yw ymagwedd 'un ateb i bawb' yn briodol i bysgodfeydd cregyn y brenin o ganlyniad i amrywiaeth y fflyd, er enghraifft, badau llai o faint sy'n gweithio mewn ardaloedd lleol penodol, o gymharu â llongau nomadig mwy o faint sy'n pysgota o amgylch yr arfordir. Felly, mae angen rheolaeth ranbarthol, ynghyd â gwell data am rywogaethau a physgodfeydd i sicrhau cynaliadwyedd tymor hir. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â natur ddatganoledig rheoli pysgodfeydd.

Mae'r FMP hwn yn amlygu'r camau gweithredu canlynol:

Gwella'r sylfaen dystiolaeth:

- Mae'r cynllun dystiolaeth ac ymchwil cregyn y brenin yn disgrifio'r dystiolaeth sydd ar gael, bylchau yn y dystiolaeth a sut gellid mynd i'r afael â bylchau er mwyn gwella rheolaeth. Amlygir yr angen am wella methodoleg asesu stoc, dangosyddion a phwyntiau cyfeirio ar gyfer yr holl stociau. Nod y cynllun ymchwil yw adeiladu ar ymchwil a data presennol ar gyfer cregyn y brenin, gan ganiatáu i reolaeth gael ei sbarduno gan strategaethau cynaeafu sy'n dibynnu ar stoc, asesiadau stoc dibynadwy a rhaglen casglu data ac ymchwil barhaus a chyson.

Mesurau rheoli cychwynnol:

- Mae'r FMP hwn yn amlinellu mesurau i'w gweithredu yn y tymor byr i fynd i'r afael â phryderon cynaliadwyedd yn unol â'r amcan rhagofalus yn Neddf Pysgodfeydd 2020. Mae'r cynigion yn cynnwys ceisio cyfleoedd i gryfhau mesurau presennol, fel ymestyn cwrpas cau tymhorol ac wedi'i seilio ar ardal i warchod anifeiliaid sy'n silio ac, os yw'n fuddiol i gynaliadwyedd a rheolaeth lleol, cydweddu mesurau'n gyffredinol lle y bo'n briodol, fel gofynion offer, i osgoi gwahaniaethau diangen mewn mesurau sy'n gymwys ar draws ffiniau rheoli.

Mesurau rheoli tymor hwy:

- Wrth i'r sylfaen dystiolaeth a monitro effeithiolrwydd wella, gallai mesurau rheoli wedi'u targedu gael eu datblygu. Mae camau a gynigir yn cynnwys archwilio a

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr

datblygu rheolaethau allbwn wedi'u seilio ar wyddoniaeth⁴, a fyddai'n cyfyngu ar gyfran y stoc y gellir ei chodi, a/neu fesurau rheoli mewnbwn⁵ a fyddai'n cyfyngu ar ymdrech bysgota. Yna, bydd hyn yn llywio ymgynghoriadau ynglŷn â chynigion ar gyfer gweithredu mesurau newydd i reoli pysgodfeydd cregyn y brenin. Bydd y broses o ddatblygu a gweithredu mesurau mwy penodol yn ailadroddol ac yn addasu i ganlyniadau adolygiadau, fel yr un ar derfynau presennol ar ddiwrnodau pysgota ar y môr.

Materion ehangach ac effeithiau amgylcheddol

Yn ogystal â'r amcan ecosystem a'r amcan newid hinsawdd yn Neddff Pysgodfeydd 2020, mae pob FMP yn ddarostyngedig i rwymedigaethau cyfreithiol ar gyfer diogelu'r amgylchedd sy'n codi o Reoliadau Cynefinoedd 2017, Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, Rheoliadau Strategaeth Forol y Deyrnas Unedig 2010, a'r datganiad polisi Egwyddorion Amgylcheddol ar gyfer Deddf yr Amgylchedd 2021.

Fel yr amlinellir yn yr adroddiad amgylcheddol sy'n cyd-fynd â'r FMP hwn – mae'r FMP Cregyn y Brenin yn cynnwys amcanion i sicrhau y deillir yr effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â physgota am gregyn y brenin a, phan ystyrir bod pysgodfeydd llusgrwydo am gregyn y brenin yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd morol, bod camau'n cael eu cymryd i osgoi, unioni neu liniaru effeithiau o'r fath. Mae'r bysgodfa llusgrwydo am gregyn y brenin yn achosi tair risg amgylcheddol: a) risg i gyfanrwydd gwely'r môr, b) sgil-ddal rhywogaethau sensitif ac c) sbwriel o offer pysgota. Yn seiliedig ar dystiolaeth bresennol, ystyrir bod sgil-ddal rhywogaethau sensitif a sbwriel o offer pysgota yn risg isel tra ystyrir bod cyfanrwydd gwely'r môr yn fater risg uwch.

Gan weithio gyda rhanddeiliaid, bydd Defra yn ystyried y dystiolaeth ac yna'n datblygu argymhellion ychwanegol ynglŷn ag effeithiau posibl gweithgareddau pysgota (ochr yn ochr â gweithgareddau eraill) ar gyfanrwydd gwely'r môr a chyflwr cynefinoedd benthig, gan gynnwys cyfrannu at weithredu a chydlynu'r Gweithgor Effaith Fenthig. Bydd y gwaith hwn yn ystyried y materion ar lefel strategol ac yng nghyd-destun newidiadau

4 Rheolaethau allbwn yw terfynau uniongyrchol ar faint o bysgod sy'n dod allan o bysgodfa. Maen nhw'n gallu cynnwys tunelledd pysgod/pysgod cregyn neu nifer y pysgod/pysgod cregyn y ceir eu dal o bysgodfa mewn cyfnod, fel cyfanswm y dalfeydd a ganiateir. Y Sefydliad Bwyd ac Amaeth, ibid.

5 Rheolaethau allbwn yw mesurau rheoli pysgodfeydd sy'n cyfyngu ar nifer a maint llongau pysgota (rheolaethau capasiti pysgota), faint o amser y caniateir i longau pysgota bysgota (rheolaethau defnyddio llongau) neu gynnyrch capasiti a defnydd (rheolaethau ymdrech bysgota). "Llawlyfr Rheolwyr Pysgodfeydd – Mesurau Rheoli a'u Cymhwysiad." Y Sefydliad Bwyd ac Amaeth, Papur Technegol Pysgodfeydd 424.

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr parhaus i ddefnydd gofodol morol a diogelu'r amgylchedd er mwyn cyflawni'r amcan Statws Amgylchedd Da o dan Strategaeth Forol y Deyrnas Unedig.

Gweithredu a monitro

Bydd y camau gweithredu a'r mesurau a gynhwysir yn yr FMP hwn yn mynd trwy gam gweithredu a bydd angen dulliau priodol i'w cyflawni. Gallai dulliau o'r fath gynnwys mesurau gwirfoddol, amodau trwydded, is-ddeddfau cenedlaethol a rhanbarthol, ac offerynnau statudol.

Mae'n rhaid i'r FMP Cregyn y Brenin gael ei adolygu pan fo'n briodol a bob chwe blynedd, o leiaf. Bydd yr adolygiad ffurfiol hwn yn asesu sut mae'r FMP wedi gweithredu o ran cyflawni amcanion y Ddeddf.

I gloi

Mae'r FMP hwn wedi cael ei baratoi i fodloni'r gofynion a amlinellir yn Neddf Pysgodfeydd 2020 ac mae'n cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a amlinellir yn adran 6(5) y Ddeddf.

Mae'r FMP hwn wedi coladu mesurau rheoli presennol a'r wyddoniaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael i asesu statws ein stociau cregyn bylchog a phennu lefel gynaliadwy o bysgota. Er bod mesurau rheoli presennol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at stociau mewn rhai ardaloedd, nid yw hyn yn wir ym mhob ardal stoc, fel y dangosir gan asesiadau stoc sy'n amcangyfrif bod rhai stociau cregyn y brenin yn cael eu pysgota ar lefel uwch na'r MSY. Mae'r FMP yn amlygu lle y ceir bylchau mewn gwybodaeth a thystiolaeth i sefydlu pysgodfeydd cregyn y brenin cynaliadwy. Mae'r amcanion rheoli a'r cynllun tystiolaeth ac ymchwil cysylltiedig yn rhoi arweiniad i'r rhai sy'n ceisio llenwi'r bylchau dros amser. Mae'r ymyriadau rheoli arfaethedig yn ceisio rheoli pysgota mewn ffordd ragofalus tra bod ein tystiolaeth yn gwella.

Rhagair

Nod yr FMP cregyn y brenin yw cyflawni “Diwydiant ffyniannus a phroffidiol sy’n defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac yn cydnabod ei gyfrifoldebau i warchod pysgodfeydd gwerthfawr cregyn y brenin yn nyfroedd Cymru a Lloegr, yr ecosystem ehangach y mae cregyn y brenin yn dibynnu arni a rhyngweithiadau pysgota eraill”.

I gyflawni'r weledigaeth hon, bydd angen i'r sector bwyd môr cyfan (o'r rhwyd i'r plât), gan gynnwys rheolwyr pysgodfeydd, gydweithio a chroesawu technolegau newydd i lywio penderfyniadau ar y cyd a lleihau effeithiau ar yr amgylchedd ehangach.

Lluniwyd yr FMP drafft hwn, ar gyfer rheolaeth tymor hir cregyn y brenin, yn dilyn cydweithredu rhwng awdurdodau polisi pysgodfeydd, asiantaethau statudol yr amgylchedd a chynrychiolwyr o'r diwydiant cregyn y brenin (dalwyr a phroseswyr) trwy SICGWG. Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i'r holl achosion o godi cregyn y brenin yn fasnachol gan longau pysgota yn nyfroedd Cymru a Lloegr. Sefydlwyd SICGWG fel grŵp rheoli ar y cyd ac mae'r aelodau wedi bod yn eiriolwyr cryf o blaid ymagwedd gydreoli tuag at bysgodfeydd cregyn y brenin, gan arwain y broses o ddatblygu nodau ac amcanion i symud tuag at gydreoli pysgodfeydd. Mae'r FMP Cregyn y Brenin yn gam arall allweddol ar y daith hon tuag at ymagwedd gydreoli. Bydd fersiynau pellach o'r FMP, ynghyd â ffyrdd o weithio ar y cyd sy'n esblygu, yn sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer cregyn y brenin a'r diwydiannau sy'n gysylltiedig â'r pysgodfeydd hyn.

Mae FMPs yn cyfuno gweledigaeth tymor hir i gyflawni MSY â mesurau clir sy'n ofynnol i gyrraedd a chynnal y nod hwn. Mae mesurau rheoli a data sy'n darparu tystiolaeth o weithredu a chydymffurfio yn bodoli ar ffurf dameidiog ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu bod y bysgodfa'n agored i niwed, gyda risgiau ymhlyg gorbysgota, ac mae bylchau o ran yr hyn a ddeillir am rai o'r effeithiau ar yr amgylchedd morol ehangach. Am y tro cyntaf, mae'r portffolio cyflawn o fesurau rheoli presennol ar gyfer cregyn y brenin yn cael ei ddwyn ynghyd mewn un cynllun, gyda'r holl wyddoniaeth a thystiolaeth sydd ar gael, ac yn dangos ble mae bylchau'n bodoli a beth sy'n ofynnol i lenwi'r bylchau hynny a darparu'r amddiffyniad angenrheidiol ar gyfer stociau yn awr ac yn y tymor hir.

Mae 7 dogfen gysylltiedig sy'n cefnogi'r FMP Cregyn y Brenin:

- Mae Atodiad 1: Datganiad Tystiolaeth Cregyn y Brenin yn manylu ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am y bysgodfa yn nyfroedd Cymru a Lloegr
- Mae Atodiad 2: Cynllun Tystiolaeth ac Ymchwil (ERP) Cregyn y Brenin yn manylu ar y dystiolaeth sy'n ofynnol i gefnogi'r cynllun a chyflawni amcanion yr FMP

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr

- Mae Atodiad 3: Adroddiad Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ynglŷn â'r FMP Cregyn y Brenin yn cyflwyno crynodeb o'r adborth gan randdeiliaid ar yr amcanion a'r mesurau arfaethedig a gasglwyd yn ystod cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd yn hwyr yn 2022
- Mae Atodiad 4: Adroddiad Ymgysylltu Ychwanegol â Rhanddeiliaid yng Nghymru ynglŷn â'r FMP Cregyn y Brenin yn cyflwyno crynodeb o'r adborth gan randdeiliaid ar yr amcanion a'r mesurau arfaethedig a gasglwyd yn gynnar yn 2023
- Atodiad 5: Cyd-destun deddfwriaethol a llywodraethu
- Atodiad 6: Rheolaeth bresennol
- Atodiad 7: Ystyriaethau amgylcheddol

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Cregyn y Brenin ar gyfer Dyfroedd Cymru a Lloegr

Cyd-destun

Paratowyd yr FMP Cregyn y Brenin i fodloni'r gofynion a amlinellir yn Neddf Pysgodfeydd 2020. Mae'r datganiad hwn yn cadarnhau'r rhwymedigaeth a amlinellir yn adran 6(5) y Ddeddf.

Mae'r [Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd \(JFS\)](#), a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022, yn amlinellu manylion ychwanegol am y polisiau y bydd yr Awdurdodau Pysgodfeydd yn eu dilyn i gyflawni neu gyfrannu at gyflawni wyth amcan pysgodfeydd y Ddeddf. Mae'n cynnwys rhestr o FMPs, gan nodi'r awdurdod arweiniol ar gyfer pob FMP, y stociau dan sylw a'r graddfeydd amser ar gyfer cyhoeddi.

Yn ogystal â bodloni gofynion y Ddeddf Pysgodfeydd, mae'r cynllun hefyd yn cefnogi'r broses o weithredu ymrwymadau ehangach yn ymwneud â gwarchod yr amgylchedd morol, adfer bioamrywiaeth, a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Rhoddir manylion ychwanegol am ofynion y Ddeddf Pysgodfeydd ac ymrwymadau ehangach, a sut mae'r rhain yn cael eu bodloni yn y cynllun hwn, yn Atodiad 5.

Mae angen ystyried pwysau gofodol cynyddol a'r heriau y gall hyn eu hachosi i bysgodfeydd, gan gynnwys, lle y bo'n berthnasol, unrhyw oblygiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n deillio o ddadleoli posibl. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi sefydlu rhaglen Blaenoriaethu Gofodol Morol i helpu i gefnogi ymagwedd fwy strategol tuag at reoli pwysau yn y dyfodol yn nyfroedd Lloegr. Bydd y rhaglen yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn gwerthuso tystiolaeth bresennol a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg er mwyn deall gofynion yn y dyfodol a phennu'r ffordd orau o'u rheoli. Bydd allbynnau o'r rhaglen yn llywio'r cam gweithredu ac adolygiadau dilynol o'r FMP, yn ogystal ag ymagwedd Defra at gynllunio morol.

Nod tymor hir

Nod tymor hir y cynllun hwn yw sicrhau bod rheolaeth yn y dyfodol yn adfer a chynnal stociau cregyn y brenin ar lefel MSY neu uwch neu brocsi tebyg. Bydd yr FMP hwn hefyd yn ystyried tystiolaeth o effeithiau'r bysgodfa ar yr amgylchedd morol ac yn amlinellu camau gweithredu i wella rheolaeth yn y dyfodol. Bydd yr FMP hwn hefyd yn

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr amlygu bylchau yn y dystiolaeth a sut gellid mynd i'r afael â'r rhain yn ystod y 6 blynedd nesaf.

Mae Deddf Pysgodfeydd 2020 yn cynnwys 'amcan rhagofalus', sy'n golygu na fydd absenoldeb tystiolaeth wyddonol yn cael ei ddefnyddio i atal gweithredu mesurau rheoli.

Mae'n rhaid i'r ymagwedd ragofalus ystyried canlyniadau annymunol a darparu cynlluniau wrth gefn er mwyn osgoi neu liniaru canlyniadau o'r fath. Mae rhagor o fanylion am yr ymagwedd ragofalus ar gael yn Atodiad 5.

Er y bydd yr FMP hwn yn defnyddio ymagwedd seiliedig ar dystiolaeth, gan ddatblygu a gweithredu mesurau rheoli yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, bydd yr FMP hefyd yn amlygu bylchau mewn tystiolaeth ac yn manylu ar sut yr eir i'r afael â'r rhain. Ceir Cynllun Tystiolaeth ac Ymchwil (ERP), i gefnogi'r broses o gyflawni'r FMP, yn Atodiad 2.

Datblygu'r FMP

Datblygwyd yr FMP hwn ar ran Defra a Llywodraeth Cymru trwy SICGWG. Mae'r grŵp hwn yn dwyn ynghyd diwydiant, rheoleiddwyr, llunwyr polisïau ac ymchwilwyr i weithio tuag at gyflawni nodau'r FMP.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses, ynghyd â rolau a chyfrifoldebau grwpiau allweddol sy'n ymwneud â'r FMP cregyn y brenin, ar gael yn Atodiad 5.

Datblygodd Seafish, ar ran SICGWG, gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu i ymgysylltu â rhanddeiliaid â diddordeb yn ehangach, er mwyn llywio datblygiad yr FMP. Mae rhagor o fanylion am ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gael yn Atodiadau 3 a 5.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgysylltiad ychwanegol yng Nghymru i sicrhau bod yr holl bysgodfeydd yn cael cyfle i wneud sylwadau ar yr amcanion a'r cynigion rheoli. Ceir crynodeb o'r ymgysylltiad hwn yn Atodiad 4.

Cwmpas yr FMP Cregyn y Brenin a statws y bysgodfa cregyn bylchog

Rhywogaethau

Mae'r FMP hwn yn berthnasol i bysgodfeydd cregyn y brenin (*Pecten maximus*) yn nyfroedd Cymru a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys unrhyw weithgarwch o unrhyw long bysgota yn nyfroedd Cymru a Lloegr. Mae'n rhaid i unrhyw fesurau a fabwysiadir yn unol â'r cynllun hwn fod yn gyson â gofynion y Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig gan gynnwys, yn arbennig, Erthygl 496⁶, ac unrhyw benderfyniadau perthnasol a wneir trwy'r Pwyllgor Arbenigol ar gyfer Pysgodfeydd (SCF), fel mabwysiadu unrhyw strategaethau aml-flwyddyn (MYSTs) ar gyfer stociau heb gwota a rennir.

Disgrifiad o'r bysgodfa

Rhywogaeth arfordirol yw cregyn y brenin sy'n ffafrio gwaddodion cymysg sy'n cynnwys tywod mwdlyd, graean tywodlyd, neu raean. Mae'r pysgodfeydd cregyn y brenin sydd dan sylw yn yr FMP hwn yn bodoli yn ardaloedd Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr (ICES) 4b ac c (Môr y Gogledd), 7a (Môr Iwerddon) a 7d-h (y Sianel a'r Môr Celtaidd).

Mae'r bysgodfa cregyn y brenin yn cael ei thargedu'n bennaf gan longau dros 10m, sy'n pysgota gan ddefnyddio llusgrwydi yn bennaf. Roedd y glaniadau a adroddwyd gan longau dros 10m wedi cynyddu rhwng 2016 a 2019, gan aros yn sefydlog rhwng 2017 a 2019, ac yna gostwng oddeutu 8% rhwng 2019 a 2020. Mae glaniadau gan longau llai na 10m yn awgrymu dirywiad graddol ar hyd yr un cyfnod o chwe blynedd, heblaw am 2017.

Mae cregyn y brenin hefyd yn cael eu pysgota gan helwyr llaw masnachol a hamdden yn nyfroedd Lloegr. Fodd bynnag, mae data am helwyr llaw yn Lloegr yn gyfyngedig ac ystyrir bod hwn yn faes y bydd yr FMP yn ceisio mynd i'r afael ag ef. Mae rhagor o wybodaeth am nodweddion y bysgodfa a'r fflyd, gan gynnwys offer pysgota a ddefnyddir, ar gael yn y datganiad tystiolaeth cysylltiedig yn Atodiad 1.

⁶ Mae Erthygl 496 y TCA yn mynnu bod ymyriadau rheoli pysgodfeydd yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur ac yn anwahaniaethol i'r naill barti neu'r llall.

Statws presennol y bysgodfa

Mae'r dystiolaeth i gefnogi datblygiad yr FMP Cregyn y Brenin yn dod o asesiadau stoc blynyddol a gynhaliwyd gan Cefas ers 2017. Cyhoeddwyd yr asesiad stoc blynyddol diweddaraf ar gyfer Cymru yn 2019.

Mae asesiadau stoc cregyn bylchog sy'n berthnasol i'r Sianel, y Môr Celtaidd a Môr y Gogledd yn cael eu cynnal yn unigol gan Ffrainc a Lloegr ar eu daliadau data eu hunain. Cyflwynir canlyniadau'r asesiadau hyn i weithgor cregyn bylchog ICES. Fodd bynnag, ers 2022, nid oes unrhyw asesiadau stoc ICES yn cael eu cynnal ar gyfer stociau cregyn y brenin yn nyfroedd y Deyrnas Unedig.

Mae asesiadau'n amcangyfrif bod rhai stociau cregyn bylchog yn cael eu pysgota ar lefel uwch nag MSY. Yn ogystal â'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr FMP hwn i sicrhau bod stociau'n cael eu pysgota'n fwy cynaliadwy, mae gwaith yn parhau i wella'r data sy'n bwydo i asesiadau stoc, fel dealltwriaeth well o effeithlonrwydd offer pysgota, nodi uned stoc optimaidd a sut mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar asesu statws stoc mewn perthynas â phwyntiau cyfeirio. Mae statws y stoc cregyn y brenin yng Nghymru yn anhysbys o hyd. Fodd bynnag, gan fod data cyfres amser hwy ar gael bellach, mae gwaith parhaus gan Brifysgol Bangor yn ymchwilio i b'un a ellir datblygu modelau asesu ymhellach.

Mae rhagor o wybodaeth am asesiadau stoc, casglu data a bylchau tystiolaeth a amlygwyd ar gael yn y datganiad tystiolaeth cysylltiedig yn Atodiad 1.

Rheoli pysgodfeydd ar hyn o bryd

Nodau rheoli pysgodfeydd

Mae ein pysgodfeydd cregyn y brenin yn cael eu rheoleiddio gan ystod o fesurau rheoli ar hyn o bryd (gweler Atodiad 6), gan gynnwys MCRS, mesurau technegol, tymhorau caeëdig a system ymdrech y Dyfroedd Gorllewinol, sy'n cyfyngu ar nifer y diwrnodau ar y môr a'r ymdrech mewn perthynas â physgodfeydd cregyn y brenin mewn ardaloedd penodol.

Mae'r mesurau rheoli presennol yn darparu sylfaen dda y bydd yr FMP hwn yn adeiladu arni i sicrhau bod rheolaeth pysgodfeydd cregyn y brenin yn y dyfodol yn effeithiol ac yn helpu i gyflawni nodau'r FMP.

Disgrifiad o Amcanion y Cynllun Rheoli Pysgodfeydd

Beth yw nod yr FMP?

Cyfrannu at bysgodfeydd cregyn y brenin cynaliadwy a reolir yn dda yng Nghymru a Lloegr.

Beth mae angen ei wneud i gyflawni hyn?


Mae'r amcanion canlynol wrth wraidd yr FMP cregyn y brenin:

- Amcan 1: Cyflawni cynaliadwyedd biolegol, cymdeithasol ac economaidd
- Amcan 2: Cyflawni rheolaeth effeithiol ar yr holl bysgodfeydd yng Nghymru a Lloegr mewn perthynas â'r holl bysgota cregyn y brenin trwy bob dull, a bydd y mesurau rheoli sydd ar waith yn berthnasol i'r holl longau sy'n pysgota yn nyfroedd Cymru a Lloegr;
- Amcan 3: Cyflawni rheolaeth effeithiol sy'n cyfrannu at ymarferoldeb ecosystemau.

Amcanion rheoli penodol cregyn y brenin

Disgrifir yr amcanion cregyn y brenin ar gyfer pysgodfeydd yn nyfroedd Cymru a Lloegr yn y tabl isod. Mae'r tabl yn amlinellu'r sail resymegol i bob amcan, y gweithgareddau a fydd yn helpu i'w gyflawni, a sut mae'n cysylltu â'r amcanion yn Neddf Pysgodfeydd 2020. Mae rhai o amcanion yr FMP yn mynd y tu hwnt i Ddeddf Pysgodfeydd 2020 ac yn cyd-fynd ag ymrwymadau deddfwriaethol a pholisi ehangach. Mae'r amcanion hyn yn adlewyrchu blaenoriaethau'r diwydiant a'r awydd i gyflawni pysgodfeydd pysgod cregyn amgylcheddol gynaliadwy sy'n parhau i ddarparu buddion economaidd-gymdeithasol i gymunedau a'r gadwyn gyflenwi ehangach.

Lluniwyd yr amcanion hyn i fynd i'r afael â materion rheoli pysgodfeydd allweddol sy'n wynebu pysgodfeydd cregyn y brenin yn nyfroedd Cymru a Lloegr. Datblygwyd yr amcanion rheoli ar gyfer pysgodfeydd cregyn y brenin ar y cyd â SICGWG ac maen nhw'n adlewyrchu adborth a gafwyd yn ystod digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Paratowyd cynllun tystiolaeth ac ymchwil sy'n amlinellu sut bydd y gofynion tystiolaeth i gefnogi'r broses o gyflawni'r amcanion hyn yn cael eu bodloni. Mae'r cynllun tystiolaeth ac ymchwil i'w weld yn Atodiad 2.



Ffigur 1 – Siart lif sy'n dangos y nodau trosfwaol y bydd amcanion yr FMP Cregyn y Brenin yn helpu i'w cyflawni

Amcanion Rheoli

Amcanion Cregyn y Brenin

Dyma'r amcanion sy'n ymwneud yn benodol â rheoli pysgodfeydd cregyn y brenin yn nyfroedd Cymru a Lloegr ac maen nhw'n canolbwyntio ar gasglu data, asesu ac, yn eu tro, gofynion rheoli'r pysgodfeydd hyn. Maen nhw hefyd yn canolbwyntio ar addasu i'r newid yn yr hinsawdd/liniaru'r newid yn yr hinsawdd a sicrhau y deöllir yr effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â physgota am gregyn bylchog. Pan ystyrir bod y pysgodfeydd hyn yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd morol, amlygir amcanion i osgoi, unioni, neu liniaru effaith o'r fath.

Pan gytunir ar gamau gweithredu, bydd grwpiau diwydiant, awdurdodau pysgodfeydd a'r llywodraeth yn gyfrifol am gyflawni'r amcanion hyn, a bydd angen eu blaenoriaethu i gefnogi cynnydd yr FMP fesul cam tuag at gyflawni amcanion y Ddeddf Pysgodfeydd.

Tabl 1 – Amcanion penodol i rywogaeth cregyn y brenin

Amcan yr FMP	Sail Resymegol	Camau Gweithredu	Cysylltiad ag Amcanion Deddf Pysgodfeydd 2020
<p>1. Datblygu sylfaen dystiolaeth wyddonol i lywio datblygiad strategaethau cynaeafu a rheolau rheoli cynaeafu ar gyfer stociau cregyn y brenin unigol</p>	<p>Mae darparu data gwell yn caniatáu ar gyfer rheoli pysgodfeydd yn well oherwydd bydd gan wyddonwyr, rheoleiddwyr, y gymuned reoli a diwydiant fynediad at y wybodaeth y mae arnynt ei hangen i wneud penderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth. Mae data gwell yn ein symud i ffwrdd oddi wrth reoli rhagofalus. Bydd hyn yn cefnogi'r amcan cynaliadwyedd</p>	<p>Cefnogi data cyfres amser tymor hir sy'n addas i reoli pysgodfeydd yn gynaliadwy, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ac y mae rhanddeiliaid yn ymddiried ynddynt</p> <p>Archwilio pecynnau cyllido posibl i gefnogi asesiadau stoc parhaus, trwy gyfuniad o'r diwydiant (trwy ardoll wyddoniaeth ar gyfer y diwydiant), y llywodraeth a ffrydiau cyllido eraill</p> <p>Amlygu bylchau allweddol mewn gwybodaeth a gofynion tystiolaeth e.e. ardaloedd setlo larfaol a chysylltedd larfaol ag ardaloedd stoc eraill</p> <p>Datblygu a chytuno ar Gynllun Tystiolaeth ac Ymchwil (ERP) i lenwi bylchau presennol yn y sylfaen dystiolaeth</p> <p>Annog a chefnogi adolygiad o ffiniau stoc y Deyrnas Unedig yn seiliedig ar dystiolaeth fiolegol</p>	<p>Amcan gwyddonol</p>

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr

Amcan yr FMP	Sail Resymegol	Camau Gweithredu	Cysylltiad ag Amcanion Deddf Pysgodfeydd 2020
	a amlinellir yn Neddf Pysgodfeydd 2020	<p>Annog buddsoddiad ychwanegol mewn datblygu sylfeini tystiolaeth sy'n ofynnol i wneud penderfyniadau rheoli priodol</p> <p>Annog a chefnogi'r broses o sefydlu pwyntiau cyfeirio marwoldeb pysgota a biolegol ar gyfer stociau cregyn bylchog y Deyrnas Unedig lle nad yw'r rhain eisoes wedi'u sefydlu</p> <p>Ceisio mwy o dystiolaeth o'r effaith ehangach y mae'r bysgodfa cregyn y brenin yn ei chael ar yr amgylchedd morol ehangach, gan gynnwys y cynefinoedd benthig, er mwyn gweithio tuag at liniaru'r risg i gyfanwydd gwely'r môr a chyflawni Statws Amgylcheddol Da (GES)</p>	
2. Datblygu Strategaethau Cynaeafu a Rheolau Rheoli Cynaeafu (HCRs) i sicrhau bod yr ymdrech bysgota'n	Mae cyfateb yr ymdrech bysgota i statws stoc yn hollbwysig i reoli pysgodfeydd yn gynaliadwy trwy sicrhau nad yw'r pwysau ar stoc yn	<p>Datblygu mesurau rheoli pysgodfeydd sy'n ymatebol i arwyddion/ tueddiadau mewn lefelau stoc (rheolaeth seiliedig ar stoc)</p> <p>Ystyried un neu fwy o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fframwaith rheoli wedi'i seilio ar: <ul style="list-style-type: none"> ○ Reolaethau mewnbwn 	Amcan cynaliadwyedd, amcan tystiolaeth wyddonol, amcan ecosystemau, amcan

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr

Amcan yr FMP	Sail Resymegol	Camau Gweithredu	Cysylltiad ag Amcanion Deddf Pysgodfeydd 2020
ymatebol i statws stociau trwy ddatblygu mesurau priodol ar gyfer rheoli pysgodfeydd	mynd yn fwy na gallu'r stoc i adfywio	<ul style="list-style-type: none"> ○ Rheolaethau allbwn ● Mesurau rheoli i ategu'r fframwaith: <ul style="list-style-type: none"> ○ Cau ardaloedd penodol, e.e. i warchod stociau silio, a/ neu wely'r môr yn ystod y cam setlo ○ Pan fydd buddion yn gysylltiedig â gwneud hynny (amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd), dylid ystyried cydweddu mesurau'n gyffredinol, gan gymhwyso ar draws ffiniau rheoli lle y bo'n briodol <p>Ystyrir bod datblygu pwyntiau cyfeirio terfyn a tharged yn ôl stoc yn angenrheidiol i reoli pysgodfeydd yn gynaliadwy</p>	rhagofalus, amcan mynediad cyfartal, amcan sgil-ddal, amcan budd cenedlaethol
3. Osgoi perygl gorbysgota ar yr un pryd â sefydlu'r amodau sy'n angenrheidiol i ganiatáu ar gyfer datblygu a	Asesu'r ymdrech bysgota (gan gynnwys capasiti cudd) ar gynaliadwyedd stoc ac, os oes angen, argymhell mesurau priodol i reoli'r ymdrech	Asesu effaith debygol yr ymdrech bysgota (gan gynnwys capasiti cudd) ar bwysau pysgota a chynaliadwyedd stoc ac ystyried mesurau i reoli risg pwysau pysgota uwch ar gynaliadwyedd stoc	Amcan cynaliadwyedd, amcan ecosystemau, amcan rhagofalus, amcan

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr

Amcan yr FMP	Sail Resymegol	Camau Gweithredu	Cysylltiad ag Amcanion Deddf Pysgodfeydd 2020
chyflwyno mesurau rheoli effeithiol (rheolau rheoli cynaeafu)		<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno rheoleiddio priodol ar gyfer y sector cregyn bylchog o dan 15m • Ar hyn o bryd, nid oes rhwystr rheoleiddiol rhag twf ar gyfer y sector <10m ac mae rhwystr rheoleiddiol cyfyngedig rhag twf ar gyfer y sector <15m (er gwaethaf y ffaith y gwelwyd yr ehangiad mwyaf hyd yma yn y sector 10-15m). Mae'n bosibl y gallai twf annisgwyl y sector <15m danseilio penderfyniadau rheoli yn y dyfodol • Ystyried p'un a oes angen 'rhewi' hawlenni cregyn bylchog >10m cudd a'r dull/ meini prawf priodol y gellid eu cymhwyso – gan gynnwys ymagwedd sefydledig ar gyfer rhyddhau hawliau 'wedi'u rhewi' os bydd tystiolaeth wyddonol yn cefnogi hyn • Datblygu cafaetau penodol i sicrhau nad yw newydd-ddyfodiaid dilys yn cael eu hatal rhag ymuno â physgodfa • Annog holl weinyddiaethau'r Deyrnas Unedig i adolygu capasiti cudd yn gyfnodol ar draws fflyd y Deyrnas Unedig 	mynediad cyfartal

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr

Amcan yr FMP	Sail Resymegol	Camau Gweithredu	Cysylltiad ag Amcanion Deddf Pysgodfeydd 2020
<p>4. Ceisio cyfleoedd i gydweddu mesurau'n gyffredinol (lle y bo'n briodol), fel gofynion offer, i ddiogelu stociau ac osgoi gwahaniaethau diangen mewn mesurau sy'n gymwys ar draws ffiniau rheoli gweinyddol</p>	<p>Lleihau beichiau ariannol ar y diwydiant yn ogystal â lleihau dadleoli ymdrech ymhellach sy'n effeithio ar stociau cregyn bylchog hygyrch sy'n weddill</p>	<p>Diffinio rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer cyflawni FMPs pob gwlad i sicrhau ymagwedd gydlynol o amgylch y Deyrnas Unedig, lle bo'n briodol</p> <p>Asesu buddion (amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd) cydweddu ymagweddau/mesurau rheoli yn gyffredinol</p> <p>Hyrwyddo ymgysylltiad effeithiol â'r holl awdurdodau polisi pysgodfeydd trwy grwpiau rheoli unigol</p> <p>Adolygu mesurau presennol ar draws pob ardal</p> <p>Datblygu proses cynllunio gofodol i ystyried stociau cregyn bylchog hygyrch</p>	<p>Amcan mynediad cyfartal</p>
<p>5. Asesu'r rhyngweithiadau â'r amgylchedd morol ac effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â</p>	<p>Bydd dealltwriaeth well o rhyngweithiadau amgylcheddol ehangach gweithgareddau pysgota am gregyn</p>	<p>Gwella dealltwriaeth o'r effaith y mae llongau cregyn y brenin y Deyrnas Unedig yn ei chael ar yr amgylchedd morol (gan gynnwys gwely'r môr, gweoedd bwyd, rhywogaethau masnachol eraill, Carbon Glas, allyriadau CO2) trwy astudiaethau ar y cyd</p>	<p>Amcan ecosystemau, amcan tystiolaeth wyddonol, amcan</p>

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr

Amcan yr FMP	Sail Resymegol	Camau Gweithredu	Cysylltiad ag Amcanion Deddf Pysgodfeydd 2020
<p>physgodfeydd cregyn bylchog a datblygu cynllun gweithredu sy'n amlinellu mesurau priodol i leihau effeithiau niweidiol</p>	<p>bylchog, yn enwedig ôl troed y bysgodfa, yn caniatáu ar gyfer rheoli'n fwy cynaliadwy, gan gefnogi cyflawni GES, mabwysiadu arfer gorau, a gwella enw da'r diwydiant</p>	<p>Amlygu rhwystrau a datrysiadau ymarferol i leihau ôl troed amgylcheddol y sector cregyn bylchog ar yr un pryd ag ystyried cynaliadwyedd economaidd</p> <p>Parhau â champau tuag at stiwardiaeth, dros y tymor hwy, i sicrhau cydymffurfedd â Strategaeth Forol y Deyrnas Unedig a dilyn mesurau rheoli Ardal Forol Warchoddedig (MPA) ac Ardal Forol Hynod Warchoddedig (HPMA)</p> <p>Datblygu cynllun i ddarparu data gofodol cyfunol i ategu MPA seiliedig ar dystiolaeth/rheoli ecosystemau ar gyfer pob sector (gan gydnabod materion cyfrinachedd posibl)</p>	<p>rhagofalus, amcan cynaliadwyedd</p>
<p>6. Archwilio ffyrdd o fynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd offer a mathau eraill o aneffeithlonrwydd sy'n bodoli ar hyn o bryd mewn pysgodfeydd cregyn y brenin</p>	<p>Mae'r manylebau technegol presennol ar gyfer offer pysgota am gregyn bylchog yn cael eu pennu mewn rheoliadau cenedlaethol a lleol. Mae'r diffyg hyblygrwydd hwn wedi cael ei nodi fel rhwystr</p>	<p>Adolygu'r mesurau technegol a'r polisiau trosfwaol (e.e. trwyddedu) presennol sy'n effeithio ar y diwydiant cregyn y brenin</p> <p>Amlygu cyfyngiadau allweddol yn y rheolau presennol sy'n rhwystro arloesi ar gyfer gwelliannau amgylcheddol yn niwydiant cregyn y brenin y Deyrnas Unedig</p> <p>Archwilio newidiadau sy'n cefnogi arloesedd sy'n arwain at arferion mwy amgylcheddol gynaliadwy, gan leihau</p>	<p>Amcan newid yn yr hinsawdd, amcan ecosystemau, amcan sgil-ddal</p>

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr

Amcan yr FMP	Sail Resymegol	Camau Gweithredu	Cysylltiad ag Amcanion Deddf Pysgodfeydd 2020
er mwyn lleihau effeithiau amgylcheddol	allweddol sy'n atal y diwydiant a'r gymuned ymchwil rhag archwilio ffyrdd o leihau effeithiau amgylcheddol ac allyriadau CO2 yn eu gweithrediadau pysgota masnachol ac astudiaethau ymchwil	<p>effeithiau amgylcheddol ar wely'r môr, amserau pysgota, ôl troed y bysgodfa ac allyriadau CO2 ar yr un pryd ag ystyried hyfywedd economaidd y sector cregyn bylchog</p> <p>Hwyluso'r broses o ddatblygu offer cregyn bylchog amgen er mwyn lleihau effeithiau amgylcheddol ar yr amgylchedd morol, gan gynnwys cefnogi defnyddio gollyngiadau ar gyfer astudiaethau academaidd i ddatblygu tystiolaeth o'u heffeithiolrwydd</p> <p>Ystyried law yn llaw â rheolaethau addas i atal gorbysgota stociau gydag offer mwy effeithlon yn gweithredu o fewn strategaeth gynaeafu gynaliadwy a reolir yn dda</p>	
7. Archwilio effeithiau newidiadau i ddefnydd gofodol morol, gan gynnwys effaith bosibl llongau cregyn bylchog	Mae dadleoli ymdrech cregyn bylchog i raddau mwy o ganlyniad i natur nomadig iawn llongau cregyn bylchog mwy o faint y Deyrnas Unedig, colli meysydd	<p>Camau gweithredu posibl i'w harchwilio ymhellach gan awdurdodau sy'n gweithio gyda SICG, grwpiau rheoli datganoledig a rhanddeiliaid ehangach:</p> <p>Cynnal adolygiad desg o'r defnydd presennol o le morol a'r defnydd arfaethedig ohono yn y dyfodol</p> <p>Sicrhau bod allbynnau'r FMP cregyn y brenin yn bwydo i'r Rhaglen Blaenoriaethu Gofodol Morol (MSP) draws-</p>	Amcan ecosystemau, amcan cynaliadwyedd, amcan newid yn yr hinsawdd

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr

Amcan yr FMP	Sail Resymegol	Camau Gweithredu	Cysylltiad ag Amcanion Deddf Pysgodfeydd 2020
<p>nomadig mwy o faint y Deyrnas Unedig, ar bysgodfeydd cregyn bylchog y Deyrnas Unedig o safbwynt amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol</p>	<p>pysgota o ganlyniad i ynni adnewyddadwy, rheoliadau pysgodfeydd, mesurau rheoli MPA a, lle y bo'n berthnasol, HMPA, gwrthdaro o ran offer, tunelleddau TCA, yn cael effaith negyddol ar stociau hygyrch sy'n weddill. Mae cynnal ymgysylltiad a chyfathrebu adeiladol rhwng sector cregyn bylchog y Deyrnas Unedig a defnyddwyr eraill posibl y môr yn sicrhau bod effeithiau cyffredinol (economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol) dadleoli pysgota am</p>	<p>lywodraeth er mwyn cysylltu â'r defnydd presennol o le morol a'r defnydd arfaethedig ohono yn y dyfodol yn nyfroedd Lloegr</p> <p>Annog ymgysylltu rhagweithiol a chynhwysol â'r sector cregyn y brenin wrth ddatblygu mesurau rheoli o fewn MPAs neu HPMAs, ynni adnewyddadwy alltraeth</p> <p>Amlygu a mynd i'r afael â bylchau mewn tystiolaeth i sicrhau bod gan y sector cregyn bylchog y data, y dystiolaeth, y naratif a'r dulliau priodol i ymgysylltu â rheoleiddwyr a defnyddwyr posibl y môr ynglŷn â chynllunio gofodol morol (gan fwydo i'r rhaglen MSP yn Lloegr) a materion mynediad (yn gysylltiedig â chynllun ymchwil yr FMP)</p> <p>Gwella'r ddealltwriaeth o opsiynau ymgysylltu i sicrhau bod y sector cregyn y brenin yn gallu rhoi mewnbwn ynglŷn â materion gofodol</p> <p>Datblygu cynllun i ddarparu data gofodol cyfunedig i gefnogi MPA/ rheoli ecosystemau ar gyfer pob sector,</p>	

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr

Amcan yr FMP	Sail Resymegol	Camau Gweithredu	Cysylltiad ag Amcanion Deddf Pysgodfeydd 2020
	gregyn bylchog yn gyfyngedig	<p>e.e. Monitro Electronig o Bell (REM) (gan gydnabod materion cyfrinachedd posibl)</p> <p>Mynd i'r afael â newidiadau i ddefnydd gofodol morol trwy ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael am batrymau presennol gweithgarwch pysgota am gregyn bylchog, amlygu a threialu 'ardaloedd pysgota am gregyn bylchog', sbardunwyr deddfwriaethol cystadleuaeth am le morol, a chyfleoedd i leihau gwrthdaro gofodol i'r eithaf â sectorau pysgota eraill a dynodiadau amgylcheddol</p> <p>Er mwyn osgoi gwrthdaro o ran offer â sectorau pysgota eraill, sefydlu a chynnal cyfathrebu da â'r sector offer sefydlog; datblygu cod arfer da ar gyfer osgoi gwrthdaro o ran offer; cynnal cofrestr gyfredol o barthau offer cyfyngedig parhaol, tymhorol a dros dro; ystyried datblygu rheolaeth barth i ganiatáu i'r sectorau llusgrwydo am gregyn bylchog ac offer sefydlog weithio'r un meysydd ar adegau gwahanol o'r flwyddyn, os ystyrir bod angen</p>	
8. Datblygu mesurau lliniaru ac addasu i'r	Cydymffurfio â'r Amcan Newid yn yr	Gwella'r ddealltwriaeth o'r effaith y mae llongau cregyn y brenin yn ei chael ar yr amgylchedd morol (gan gynnwys	Amcan newid yn yr hinsawdd

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr

Amcan yr FMP	Sail Resymegol	Camau Gweithredu	Cysylltiad ag Amcanion Deddf Pysgodfeydd 2020
newid yn yr hinsawdd ar gyfer pysgodfeydd cregyn bylchog y Deyrnas Unedig	Hinsawdd yn y Ddeddf Pysgodfeydd	<p>gwely'r môr, Carbon Glas, allyriadau CO2) trwy astudiaethau ar y cyd</p> <p>Diwydiant a'r llywodraeth i ystyried lleihau allyriadau CO2 cyffredinol trwy bysgota deallus, lleihau allyriadau tanwydd, chwilota, amserau pysgota, offer mwy effeithlon a gosod cyfyngiadau ar ymdrech</p> <p>Defnyddio/datblygu mapiau manau problemus o ran carbon a "llochesau" hinsawdd i amlygu a lleihau gorgyffyrddiad posibl ag ôl troed pysgota am gregyn bylchog</p> <p>Datblygu dealltwriaeth o effeithiau tebygol y newid yn yr hinsawdd ar statws cregyn bylchog (yn ogystal â chysylltiadau ag ecosystemau) a physgodfeydd i lywio rheolaeth addasol a chynaliadwyedd tymor hir ar gyfer yr amgylchedd a'r diwydiant</p>	

Ystyriaethau wrth ddatblygu dulliau rheoli

Rhoddir isod restr o egwyddorion trosfwaol yn seiliedig ar adborth a gafwyd mewn digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid:

- Dylai mesurau gael eu seilio ar y dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael a bod yn ymatebol i amrywiadau mewn biomas stoc
- Mae'n rhaid i HCRs fod yn ymatebol i statws stoc a thystiolaeth wyddonol sy'n dod i'r amlwg/ data pysgodfa
- Dylai'r egwyddorion fod yn berthnasol i'r holl bysgota masnachol am gregyn y brenin gan yr holl longau pysgota sy'n pysgota yn nyfroedd Cymru a Lloegr
- Dylai'r mesurau gael eu datblygu a'u cyflawni gan ddefnyddio stiwardiaeth y diwydiant
- Dylai gofynion offer presennol gael eu hadolygu (i wella effeithlonrwydd a sbarduno arloesedd)
- Dylai'r FMP, a'r mesurau ynddo, osod targedau cynaliadwyedd ar gyfer pwysau pysgota/ biomas stoc
- Dylai'r mesurau gael eu cymhwyso ar y lefel briodol, e.e. cenedlaethol, rhanbarthol/ lleol
- Dylai mesurau gofodol a/ neu dymhorol gael eu hystyried a'u cymhwyso lle y bo'n briodol
- Dylai'r mesurau rheoli ar gyfer yr holl gregyn y brenin sy'n cael eu cynaeafu'n fasnachol yn nyfroedd Cymru a Lloegr gael eu dylunio a'u cymhwyso'n deg ar draws llongau o bob maint, o bob gwlad (gan gynnwys trwy ddyrannu unrhyw gyfleoedd pysgota)
- Dylai'r mesurau rheoli ystyried anghenion unigryw gwahanol sectorau o'r diwydiant masnachol, yn enwedig fflydiau'r glannau ar raddfa lai
- Mae'n rhaid ystyried data biolegol, cymdeithasol ac economaidd wrth ddatblygu a gweithredu dulliau/ mesurau
- Dylai'r mesurau rheoli a sefydlir alluogi pysgota mwy deallus sy'n caniatáu i'r diwydiant weithredu mewn system sydd, lle y bo'n briodol, yn cynyddu effeithlonrwydd i'r eithaf, yn lleihau costau, nad yw'n cynyddu'r pwysau ar stociau ac sy'n lleihau nwyon tŷ gwydr (GHGs) ac effeithiau ar gynefinoedd
- Mae'n rhaid i ddulliau/ mesurau rheoli newydd neu wedi'u diweddarau ystyried telerau a darpariaethau'r TCA rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

Rhyngweithiadau Offer

Gall rhyngweithiadau offer ddigwydd rhwng offer “sefydlog” neu “osodedig” sy’n ansymudol, fel cewyll a rhwydi gosodedig, ac offer pysgota “symudol” neu “weithredol”, sy’n cael eu tynnu, wrth feddiannu ardal bysgota a rennir. Mae rhyngweithiadau o’r fath yn gallu arwain at ddifrod i offer neu golli offer, gan achosi i’r diwydiant golli arian ac amser pysgota a mwy o risgiau i stociau/ cynefinoedd. Wrth i ddwysedd defnydd o’r amgylchedd morol gynyddu, felly hefyd perygl rhyngweithiadau offer.

Mae’r FMP yn cydnabod yr angen i ddeall achosion o ryngweithiadau offer, a’u cyfyngu lle y bo’n bosibl, gan gynnwys y rheiny a achosir gan weithgarwch pysgota wedi’i ddadleoli. Fel yr amlinellir yn Amcan 7, bydd ymgysylltiad a chyfathrebu adeiladol yn cael ei sefydlu a’i gynnal rhwng y sector cregyn bylchog a defnyddwyr eraill y môr, yn enwedig gyda’r sector offer sefydlog. Nod y cyfathrebu yma fydd symud ymlaen â chamau fel datblygu cod arfer da i osgoi offer, cynnal cofrestr gyfredol o barthau offer cyfyngedig parhaol, tymhorol a dros dro ac ystyried datblygu rheolaeth barth i ganiatáu i’r sectorau llusgrwydo am gregyn bylchog ac offer sefydlog weithio’r un meysydd ar adegau gwahanol o’r flwyddyn, os ystyrir bod angen.

Wrth i ddulliau rheoli newydd neu bresennol gael eu datblygu a’u cryfhau, gan gynnwys trwy ddatblygu FMPs eraill, bydd lefel y dadleoli a’r effaith y gallai’r rhain ei hachosi yn cael ei hystyried a’i hasesu, i sicrhau ei bod yn cael ei lleihau gymaint â phosibl.

Strategaeth Rheoli Pysgodfeydd

Strategaeth Gynaeafu

Mae’r FMP Cregyn y Brenin yn gosod llwybr ar gyfer ein gweledigaeth o reoli’r pysgodfeydd hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir. Mae’r adran hon yn manylu ar y dull rheoli arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin.

Mae Strategaethau Cynaeafu’n gyfuniad o fonitro, asesu stoc, HCRs a chamau rheoli sy’n ofynnol i reoli pysgodfa’n gynaliadwy. Yn dibynnu ar eu nodweddion, mae’n bosibl y bydd angen gwahanol strategaethau cynaeafu ar stociau cregyn bylchog unigol, neu ranbarthau, a fydd yn amlinellu’r camau rheoli sy’n angenrheidiol i gynnal neu adfer y stoc ar lefel MSY. Gyda’i gilydd, bydd y strategaethau cynaeafu’n cael eu defnyddio i fodloni amcanion yr FMP hwn.

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr

Bydd pob Strategaeth Gynaeafu'n pennu proses ar gyfer cynnal asesiadau (gweler Atodiad 1 ar gyfer manylion am asesiadau stoc) a monitro priodoleddau biolegol ac economaidd pysgodfa, yn ogystal â rheolau penodol (h.y. HCRs) sy'n rheoli'r ymdrech bysgota. Bydd Strategaethau Cynaeafu'n bragmatig, yn gost effeithiol, yn dryloyw, yn hawdd eu deall, ac yn addasol (yn gallu newid wrth i fwy o wybodaeth ddod ar gael).

Egwyddorion allweddol ar gyfer Strategaethau Cynaeafu cregyn y brenin:

- Bydd pob Strategaeth yn ymatebol i gyflwr y stoc(iau)
- Byddant yn glir ac yn benodol i'r bysgodfa, wedi'u teilwra i anghenion y pysgodfeydd cregyn y brenin
- Byddant yn cael eu diweddarau, fel y bo'n briodol, i fodloni'r amcanion rheoli, yn unol â llinellau amser yr FMP
- Bydd data biolegol, cymdeithasol, ac economaidd yn cael eu hystyried wrth ddatblygu a gweithredu dulliau/mesurau
- Pan fyddant ar waith, bydd angen monitro a gwerthuso yn y dyfodol i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir gan yr FMP.

Bydd y Strategaeth Gynaeafu a HCRs yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael eu llywio gan enghreifftiau o arfer gorau yn y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang, yn ogystal â mewnbwn gan randdeiliaid, gan gynnwys SICGWG a rhanddeiliaid priodol yng Nghymru, ymgysylltu'n anffurfiol â rhanddeiliaid ac ymgynghori cyhoeddus. Trwy'r FMP, bydd HCRs yn cael eu dylunio a'u gweithredu i gynnal marwoldeb bysgota o fewn lefelau cynaliadwy ac ystyried effeithiau eilaidd ar yr amgylchedd. Cydnabyddir nad yw lleihau marwoldeb bysgota ar ei ben ei hun yn ddigon i sicrhau cynaliadwyedd a bod rhaid iddo gael ei ystyried o fewn system ehangach.

Ar ôl cyhoeddi'r FMP, bydd fframwaith rheoli a mesurau i gyflawni MSY neu gyfwerth yn cael eu datblygu gyda rhanddeiliaid. Bydd y Fanyleb Safon Cynaeafu (HSS) yn llywio'r broses hon. Bydd gwahanol elfennau'r strategaeth reoli/gynaeafu yn cydweithio i gyflawni nod yr FMP (amcan 2). Bydd mesurau lefel stoc yn cael eu datblygu mewn perthynas â strategaethau cynaeafu ac unrhyw reolau rheoli cynaeafu cytunedig i adfer stociau i lefelau cynaliadwy neu eu cynnal ar lefelau cynaliadwy.

Dulliau Rheoli

Diben/ nodau

Nod rheoli pysgodfeydd cregyn y brenin yn nyfroedd Cymru a Lloegr yw cyflawni cynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, er budd cymunedau

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr arfordirol a chymdeithas ehangach. Un o flaenoriaethau allweddol yr FMP yw sicrhau bod y stociau hyn yn cael eu pysgota'n gynaliadwy, er mwyn gofalu eu bod yn cyrraedd ac yn cynnal MSY neu fesur amgen sy'n adlewyrchu iechyd y stoc (amcan 2 yr FMP).

Mae angen mwy o amddiffyniad trwy ddatblygu a gweithredu mesurau rheoli, ochr yn ochr â sylfaen dystiolaeth wyddonol wybodus, i sicrhau cynaliadwyedd tymor hir stociau. Mae adborth a gafwyd o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cadarnhau bod llawer o randdeiliaid yn cefnogi'r ymagwedd hon fel maes blaenoriaeth i fynd i'r afael ag ef, fel yr amlinellir yn yr adroddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhrychwyd gan Seafish, sydd ar gael yn Atodiad 3.

Dulliau rheoli arfaethedig; i gyflawni amcanion cynaliadwyedd blaenoriaethol yr FMP

Mewn cyfarfodydd â rhanddeiliaid, mynegwyd cefnogaeth i fwy o reolaeth ar bysgodfeydd cregyn bylchog ac amcanion FMP sy'n ceisio sicrhau bod stociau'n cael eu pysgota'n gynaliadwy. Mae rheoli gweithgarwch pysgota wedi cael ei amlygu fel dull rheoli allweddol o gyflawni hyn.

Cydnabyddir na all un mesur unigol weithio ar ei ben ei hun i gyflawni hyn a bod rhaid i ymagwedd yn y dyfodol fod yn gyfuniad o gyfres o fesurau gyda fframwaith wedi'i gefnogi gan nifer o fesurau rheoli (neu ymyriadau), gan gynnwys rheolaethau mewnbwn neu allbwn.

Yn gyffredinol, mae fframweithiau rheoli pysgodfeydd wedi'u seilio ar reolaethau allbwn neu fewnbwn. Mae rheolaethau wedi'u seilio ar allbwn yn cyfyngu ar faint o stoc y gellir ei dal a'i lanio. Mae'r terfynau hyn wedi'u seilio ar amcangyfrifon gwyddonol o MSY stoc. Mae rheolaethau mewnbwn yn ceisio cyfyngu ar weithgarwch pysgota trwy reoli ymdrech bysgota. Gallai hyn fod ar ffurf cyfyngu ar yr amser y gall llongau bysgota trwy uchafswm nifer diwrnodau ar y môr.

Mae tystiolaeth ynglŷn â dulliau rheoli posibl yn y dyfodol, gan gynnwys enghreifftiau o arfer gorau i gyflawni pysgodfeydd cynaliadwy, wedi cael ei chasglu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys o adolygiadau gwyddonol o ddulliau rheoli yn y Deyrnas Unedig a rhannau eraill o'r byd, cynadleddau a arweiniwyd gan y diwydiant i drafod rheolaeth yn y dyfodol ac, yn fwy diweddar, y digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â'r FMP cregyn bylchog. Amlinellir isod gyfres arfaethedig o fesurau, wedi'u seilio ar y dystiolaeth a'r adborth hyn, gan gynnwys fframwaith

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr
troswaol:

Fframwaith rheoli troswaol arfaethedig:

- Rheolaethau allbwn ar sail wyddonol (e.e. amcan dal)
- Rheolaethau ymdrech ar sail wyddonol (e.e. diwrnodau ar y môr)

Mesurau:

- Rheolaeth wedi'i seilio ar ardal (fel cau tymhorol)
- Ystyried cydweddu mesurau'n gyffredinol (fel manylebau llusgrwydo ac uchafswm nifer y llusgrwydo a ganiateir) pan fydd hynny'n arwain at fuddion amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd. Bydd mesurau newydd yn cael eu cydweddu, lle y bo'n briodol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae'n bosibl y bydd rhesymau da dros wahaniaethau o ganlyniad i amgylchiadau lleol i ddiogelu stociau neu'r amgylchedd.

Er bod y dulliau arfaethedig ar lefel uchel ar hyn o bryd, maen nhw'n darparu sail gadarn ar gyfer datblygu mesurau rheoli posibl yn fanylach. Bydd angen i reolwyr pysgodfeydd, y diwydiant a gwyddonwyr ddadansoddi hyn yn fanwl, trwy ymagwedd gydreoli, i ymdrin â meysydd fel:

- Y darpariaethau a gynhwysir o dan bob mesur arfaethedig
- Lefel y dystiolaeth wyddonol a'r math o dystiolaeth wyddonol sy'n ofynnol i fod yn sail i fesurau a'u llywio
- Buddion i gynaliadwyedd stoc, gweithredu mesurau o bosibl
- Dulliau posibl o ddyrannu cyfleoedd pysgota ar draws pob sector a fflyd
- Monitro cydymffurfedd â'r mesurau a'u heffeithiolrwydd
- Goblygiadau cyfreithiol y TCA gyda'r Undeb Ewropeaidd

Bydd canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn llywio'r llwybr rheoli mwyaf priodol ac effeithiol i'w ddilyn. Cyn i unrhyw newidiadau gael eu gwneud i fesurau rheoli pysgodfeydd, bydd cynigion yn destun ymgynghoriad cyhoeddus lle y bo'n briodol, ac unrhyw asesiadau o'r effaith sy'n angenrheidiol.

Llinellau amser

Bydd angen digon o amser i ddatblygu manylion mesurau yn y dyfodol, a fydd yn amrywio yn dibynnu ar eu natur, e.e. p'un a yw'r mesur yn newydd neu wedi'i ddiweddarau, cymhlethdod y mesur arfaethedig, y dystiolaeth sydd ar gael i seilio'r manylion arni a'u llywio, a pha ddull y bydd ei angen i weithredu'r mesur. Bydd angen

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr

cynnal dadansoddiad trwyadl i ddatblygu'r mesurau a amlinellir yn yr FMP, gan adeiladu ar y dystiolaeth a'r wybodaeth bresennol yn ogystal â gwersi a ddysgwyd o fesurau sydd eisoes yn cael eu cymhwyso i bysgodfeydd cregyn y brenin neu bysgodfeydd eraill perthnasol. Bydd hyn yn cynnwys adolygu mesurau presennol i bennu a allai fod angen eu cryfhau ac i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol ochr yn ochr â dulliau newydd eu datblygu.

Bydd y mesurau tymor byr a amlinellir yn yr FMP hwn yn cael eu datblygu ochr yn ochr ag adolygu dulliau rheoli presennol a datblygu mesurau rheoli tymor hir. Mae hyn yn cefnogi'r gofyniad yn y Ddeddf Pysgodfeydd i ddefnyddio ymagwedd ragofalus tuag at reoli stoc tra bod y sylfaen dystiolaeth yn gwella.

Mae angen i fframweithiau rheoli mewnbwn ac allbwn gael eu hategu gan gyfres o fesurau rheoli. Gallai eu dyluniad a'u pwysigrwydd cymharol amrywio o dan y naill system neu'r llall. Bydd gwaith yn cael ei wneud i ddeall sut gall y mesurau rheoli hyn helpu i gyflawni amcanion yr FMP a sut gallai fod angen eu dylunio'n wahanol o dan fframwaith mewnbwn neu allbwn. Bydd hyn yn parhau i ddefnyddio ac adeiladu ar dystiolaeth bresennol, fel y wybodaeth sydd wedi llywio datblygiad yr FMP, a gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo i goladu ac ystyried y dystiolaeth hon er mwyn datblygu mesurau yn y dyfodol.

Bydd angen gwneud mwy o waith a dadansoddi i ddatblygu mesurau blaenoriaeth. Amlinellir isod asesiad cychwynnol o'r camau datblygu polisi. Bydd y camau hyn yn destun cwmpasu a blaenoriaethu ychwanegol gan bob gweinyddiaeth yn rhan o'r broses o weithredu'r cynllun. Fel canllaw, disgwylir i gamau gweithredu tymor byr gael eu cynnal o fewn 1-2 flynedd o gyhoeddi'r cynllun hwn, tymor canolig yn ystod y 3-5 mlynedd nesaf a mesurau tymor hir ymhen 5+ mlynedd i adlewyrchu'r gwaith mwy cymhleth sy'n ofynnol i'w datblygu.

Fframwaith Rheoli: Rheoli allbwn neu fewnbwn ar sail wyddonol (tymor byr i ganolig)

Canlyniad a ddymunir

- Ystyried manteision ac anfanteision mesurau allbwn a mewnbwn i lywio'r broses o ddatblygu mesurau seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi pysgota cynaliadwy (bydd y ddau opsiwn yn cael eu dadansoddi a'u hystyried yn gyfartal)
- Bydd hyn yn llywio ymgynghoriadau ynglŷn â chynigion i weithredu mesurau rheoli newydd ar gyfer pysgodfeydd cregyn y brenin

Gweithredu/camau:

Cam 1

Amlygu a choladu gwybodaeth bresennol am fesurau rheoli allbwn a mewnbwn a gymhwysir i bysgodfeydd eraill (gan gynnwys pysgodfeydd cregyn y brenin) a buddion/ materion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd cysylltiedig. Mae cryn dipyn o waith wedi cael ei goladu ar hyn eisoes a bydd y gwaith hwnnw'n cael ei ehangu.

Cam 2

Datblygu ymagwedd bosibl at sut gallai rheolaethau allbwn neu fewnbwn gael eu cymhwyso i bysgodfeydd cregyn y brenin, gan gynnwys opsiynau ar gyfer y dull o osod terfynau, y dull dyrannu a meini prawf ar gyfer cyfleoedd pysgota, monitro sy'n ofynnol i fesur effeithiolrwydd.

Amlygu'r data perthnasol sy'n ofynnol, gan gynnwys data cyfres amser priodol, i fod yn sail i reolaethau allbwn neu fewnbwn, a deall a yw'r data hyn eisoes yn cael eu casglu neu a oes angen dulliau newydd o gasglu data.

Cam 3

Asesu effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd cymhwyso terfynau ar reoli allbwn neu fewnbwn

Amcangyfrif sut y bydd mesurau'n cyfrannu at gyflawni cynaliadwyedd stoc a nodau trosfwaol yr FMP, a graddfeydd amser tebygol

Archwilio opsiynau gweithredu ac amseru posibl, e.e. deddfwriaeth, defnyddio pwerau presennol

Parhaus

Ceisio safbwyntiau/ mewnbwn rhanddeiliaid ehangach ar yr ymagwedd i lywio datblygiad ac asesu buddion/ effeithiau

Gweithredu

I'w lywio gan y dadansoddiad a'r mewnbwn gan rhanddeiliaid uchod. Ystyried ymagwedd fesul cam, a/ neu dreialon, ar draws ardaloedd stoc a sectorau. Adrodd ar y canlyniadau fel y bo'n briodol i lywio'r mesurau.

Mesur: Cau/rheoli seiliedig ar ardal (tymor byr i ganolig)

Canlyniad a ddymunir

Darparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer defnyddio cau fel mesur i warchod stociau ac egwyddorion/ meini prawf ynglŷn â phryd a ble y gallai'r mesur hwn fod yn briodol.

Dogfen ganllaw sy'n crynhoi'r dadansoddiad a'r meini prawf uchod i'w chymhwyso wrth ystyried/ gweithredu cau tymhorol a seiliedig ar ardal.

Gweithredu/camau:

Cam 1

Amlygu a choladu gwybodaeth am gyfnodau cau presennol a gymhwysir i bysgodfeydd (gan gynnwys pysgodfeydd cregyn y brenin), eu nodau bwriadedig, e.e. gwarchod stociau silio, a buddion/ materion cysylltiedig

Datblygu cyfres o egwyddorion i ategu defnyddio cyfnodau cau fel mesur i warchod stoc, gan gynnwys diben a nodau'r cyfnodau cau, pryd a ble y gallent fod yn effeithiol, meini prawf ar gyfer pennu hyd ac amseriad y cyfnod cau i gyflawni ei nodau ('strategaeth gau')

Cam 2

Amlygu'r data perthnasol sy'n ofynnol, gan gynnwys data cyfres amser priodol, i ategu a llywio cwmpas ac effeithiolrwydd cyfnodau cau a'u heffaith ar bysgodfeydd/ ardaloedd eraill, a deall a yw'r data hyn eisoes yn cael eu casglu neu a oes angen dulliau newydd o gasglu data

Amlygu a blaenoriaethu ardaloedd stoc posibl y gellid cymhwyso cyfnodau cau newydd iddynt, a'u cwmpas, hyd a buddion tebygol (gan gynnwys rhyngweithio â chyfnodau cau eraill presennol/ arfaethedig)

Cam 3

Asesu effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd cymhwyso cyfnodau cau mewn ardaloedd amrywiol, e.e. y glannau, alltraeth

Amcangyfrif sut y bydd mesurau'n cyfrannu at gyflawni cynaliadwyedd stoc a nodau troswaol yr FMP, a graddfeydd amser tebygol

Llwyr asesu effeithiau dadleoli posibl mesurau rheoli seiliedig ar ardal

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr

Archwilio opsiynau gweithredu ac amseru posibl, e.e. deddfwriaeth, defnyddio pwerau presennol

Parhaus

Ceisio safbwyntiau/ mewnbwn rhanddeiliaid ehangach ar yr ymagwedd yn rheolaidd i lywio datblygiad yr ymagwedd

Llwyrr asesu effeithiau dadleoli cynradd ac eilaidd posibl mesurau rheoli seiliedig ar ardal

Gweithredu

Parhau â chyfnodau cau tymhorol presennol a fydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y mesurau'n addas i'r diben a bod cyfleoedd ar gyfer cryfhau yn cael eu hamlygu, yn seiliedig ar y dadansoddiad a'r mewnbwn gan randdeiliaid uchod.

Bydd dogfen ganllaw (strategaeth gau) yn cael ei chynhyrchu yn y tymor byr.

Bydd cyfnodau cau seiliedig ar ardal yn cael eu hystyried yn raddol dros y tymor byr i ganolig.

Mesur: Ystyried cydweddu mesurau'n gyffredinol lle bydd hynny'n arwain at fuddion amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd (tymor byr i ganolig)

Canlyniad a ddymunir

Ystyried mesurau presennol a newydd i sicrhau eu bod yn cael eu cymhwyso ar y lefel fwyaf priodol. Dylid ystyried cydweddu mesurau'n gyffredinol pan fydd buddion (amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd) yn gysylltiedig â hynny. Bydd yr adolygiad o fesurau presennol a amlinellir yn ddiweddarach yn yr adran hon yn galluogi'r gwaith hwn i fynd rhagddo.

Gweithredu/camau:

Cam 1

Coladu gwybodaeth am fesurau presennol yn ymwneud â manylebau a therfynau llusgrwydo a lle mae'r rhain yn wahanol i'r rhai mewn dyfroedd Gweinyddiaethau Datganoledig y Deyrnas Unedig ac ardaloedd IFCA eraill, e.e. o fewn y parth 6 môr-filltir a'r tu allan iddo, a mesurau cenedlaethol a gymhwysir o amgylch y Deyrnas Unedig

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr

Amlygu lle mae mesurau'n wahanol ar draws ardaloedd ac archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweddu'n gyffredinol

Asesu lle y gallai cydweddu mesurau penodol yn gyffredinol â mesurau eraill y Deyrnas Unedig arwain at effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mewn ardaloedd amrywiol, e.e. y glannau, alltraeth

Amcangyfrif sut y bydd mesurau'n cyfrannu at gyflawni cynaliadwyedd stoc a nodau trosfwaol yr FMP, a graddfeydd amser tebygol

Archwilio opsiynau gweithredu ac amseru posibl, e.e. deddfwriaeth, defnyddio pwerau presennol, gan gynnwys, os yw'n berthnasol, p'un a allai fod yn fuddiol i dreialu ymagwedd arfaethedig

Ceisio safbwyntiau/ mewnbwn rhanddeiliaid ehangach ar yr ymagwedd yn rheolaidd i lywio datblygiad yr ymagwedd

Gweithredu

Parhau â'r mesurau presennol yn ogystal ag amlygu cyfleoedd ar gyfer cryfhau, yn seiliedig ar y dadansoddiad a'r mewnbwn gan randdeiliaid uchod

I'w adolygu'n barhaus

Cam 2 (parhaus)

Parhau i ddatblygu a chynnal cofnod o'r holl fesurau rheoli presennol a gymhwysir i gregyn y brenin yn nyfroedd Cymru a Lloegr, fel ffynhonnell wybodaeth gyfredol

Ystyried yn barhaus p'un a oes buddion yn gysylltiedig â chydweddu ymagweddau/ mesurau rheoli newydd yn gyffredinol neu a ddylai mesurau fod yn benodol i ranbarth

Ystyried yn barhaus y potensial i fesurau presennol gael eu hymestyn/ datblygu ymhellach wrth i ymagweddau/ mesurau rheoli newydd gael eu datblygu

Llinell amser

Cwblhau cofnod mesurau presennol – Tymor byr, 6 mis

Adroddiad ar yr adolygiad o fesurau presennol i'w ddatblygu yn y tymor byr

Camau gweithredu eraill yn parhau

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr

Fframwaith Rheoli: Gweithio mewn partneriaeth (ar hyd oes y cynllun)

Canlyniad a ddymunir

Dylai ymagwedd ar y cyd gyda rhanddeiliaid allweddol gefnogi'r broses o ddatblygu a gweithredu'r cynllun hwn. Gall y dull cydweithio hwn, lle y bo'n briodol, gael ei ystyried yn gam nesaf ar y daith tuag at gydreoli.

Bydd SICG (a grwpiau rheoli priodol yng Nghymru) yn parhau i weithredu fel fforwm sy'n caniatáu i'r diwydiant, rheoleiddwyr, a'r gymuned ymchwil ymgysylltu a chydweithio ar reoli pysgodfeydd pysgod cregyn.

Bydd angen ystyried aelodaeth bresennol y grŵp cydreoli er mwyn gweithredu'r cynllun a sut bydd SICGWG yn gweithio gyda grwpiau rheoli yng Nghymru a Lloegr wrth flaenoriaethu a datblygu mesurau a fersiynau dilynol o'r cynllun.

Bydd cynnydd ar gamau allweddol i adolygu strwythur SICGWG a chynnal dadansoddiad o'r term cydreoli yn datblygu yn y tymor byr.

Mae gweithredu/camau'n cynnwys:

Cam 1

Amlygu a choladu gwybodaeth bresennol am bysgodfeydd byd-eang a gydreolir (gan gynnwys pysgodfeydd cregyn y brenin) a buddion/ materion cysylltiedig. Mae gwaith eisoes wedi cael ei goladu ar hyn a bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach.

Cynnal dadansoddiad manwl ynglŷn â dehongli a chymhwyso'r term 'cydreoli'. Beth mae'n ei olygu a sut gellir ei gymhwyso'n ymarferol.

Adolygu strwythur a gweithrediad SICGWG ac is-grwpiau cysylltiedig i sicrhau cynrychiolaeth effeithiol gan bob rhan o'r gadwyn gyflenwi cregyn y brenin, yn ogystal â busnesau o unrhyw faint, Defra, y Sefydliad Rheoli Morol (MMO) a'r IFCA's, er mwyn iddo ddod yn ganolbwynt ar gyfer ymgysylltu ynglŷn â physgodfeydd cregyn y brenin a'u rheolaeth ar y cyd â grwpiau rheoli perthnasol yng Nghymru.

Ystyried sut y bydd grwpiau rheoli yng Nghymru yn cael eu strwythuro ac yn ymwneud â gweithredu'r FMP.

Datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu cynhwysfawr, gan gynnwys amseriadau, i sicrhau bod yr holl grwpiau aelodaeth yn ymwybodol o'r FMP, ei flaenoriaethau a chynnydd yn unol â'r blaenoriaethau hyn.

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr

Cam 2

Hybu 'llythrennedd' rheoli yn y sector cregyn bylchog, a fydd yn arwain at drafodaethau mwy gwybodus a chynhyrchiol wrth i'r broses gydreoli esblygu.

Hwyluso cyfnewidfeydd dysgu rhwng pysgodfeydd wedi'u targedu, gan ddwyn ynghyd cynrychiolwyr o wahanol bysgodfeydd i rannu gwybodaeth ac arbenigedd ym maes cydreoli pysgodfeydd.

Rhannu arfer da gyda grwpiau cydreoli sydd eisoes wedi'u sefydlu ar gyfer pysgodfeydd eraill i gynhyrchu syniadau ar gyfer gweithredu ymagwedd tuag at gregyn y brenin yng Nghymru a Lloegr.

Cam 3

Archwilio opsiynau gweithredu ac amseru posibl, e.e. deddfwriaeth, defnyddio pwerau presennol.

Archwilio strwythur, swyddogaeth a dulliau llywodraethu posibl trefniant cydreoli newydd mewn perthynas â datblygu mesurau rheoli a chomisiynu gwaith ymchwil yn y dyfodol.

Parhaus:

Ceisio safbwyntiau a mewnbwn rhanddeiliaid ehangach ar yr ymagwedd yn rheolaidd i lywio datblygiad yr ymagwedd a chynnwys safbwyntiau a gasglwyd trwy ymgynghori ffurfiol.

Camau gweithredu eraill i gefnogi datblygiad y fframwaith rheoli newydd:

Sefydlu llinell sylfaen ar gyfer pysgodfeydd cregyn y brenin y gellir ei defnyddio i asesu newidiadau dros amser o ganlyniad i reolaeth. Dylai'r llinell sylfaen hon ganolbwyntio ar barhad busnes a'r asesiad economaidd o gyflawni amcanion yr FMP i wella'r ddealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol. Bydd hyn yn helpu i werthuso gweithredu FMP cregyn bylchog y Deyrnas Unedig a mireinio amcanion mewn cynlluniau rheoli a mentrau ymchwil yn y dyfodol. Dylai'r llinell sylfaen hon sefydlu'r canlynol:

- Cynaliadwyedd cymdeithasol a pherfformiad economaidd gwahanol sectorau yn y gadwyn gyflenwi pysgod cregyn;
- Y cyd-destun deddfwriaethol a rheoli;
- Cryfderau, gwendidau, cyfleoedd, a rhwystrau'r farchnad ddomestig;
- Asesiad economaidd parhaus o ddalfeydd yn ôl segment; a,
- Chyd-destun y farchnad allforio.

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr

Ymgysylltu ynglŷn â gweithredu mesurau Rhywogaeth Heb Gwota o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA)

Mae cregyn y brenin yn ffurfio cyfran sylweddol o ddalfa Rhywogaeth Heb Gwota'r Deyrnas Unedig y tu mewn a'r tu allan i Barth Economaidd Neilltuedig (EEZ) y Deyrnas Unedig. Dylid sefydlu dull addas i'r diwydiant cregyn bylchog gydweithio â rheoleiddwyr ar faterion sy'n ymwneud â mesurau rheoli pysgod cregyn rhywogaeth heb gwota. Dylai nodau'r ymgysylltiad hwn â'r broses alluogi'r diwydiant i:

- Asesu goblygiadau tebygol y mesurau rheoli a weithredir trwy'r TCA ar stociau cregyn bylchog yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir
- Cael mwy o dryloywder ynglŷn â gweithgarwch y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn eu dyfroedd ei gilydd
- Cefnogi datblygiad y strategaeth aml-flwyddyn beilot ar gyfer cregyn y brenin gyda'r Undeb Ewropeaidd

Adolygu mesurau presennol

Mae angen adolygu'r mesurau presennol hefyd ar yr un pryd â datblygu fframwaith rheoli newydd, er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben i gyflawni cynaliadwyedd stoc o dan y fframwaith rheoli newydd, bod y mesurau wedi'u seilio ar dystiolaeth a bod cyfleoedd ar gyfer cydweddu mesurau'n gyffredinol (lle y bo'n briodol) yn cael eu harchwilio.

Rheoli a mynd i'r afael â risgiau amgylcheddol

Mae'r FMP cregyn y brenin yn cynnwys amcanion i sicrhau y deöllir yr effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â physgota am gregyn y brenin a, phan ystyrir bod pysgodfeydd llusgrwydo am gregyn y brenin yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd morol, bod camau'n cael eu cymryd i osgoi, unioni neu liniaru effeithiau o'r fath. Mae'r bysgodfa llusgrwydo am gregyn y brenin yn achosi tair prif risg amgylcheddol: a) risg i gyfanrwydd gwely'r môr, b) sgil-ddal rhywogaethau sensitif ac c) sbwriel o offer pysgota. Yn seiliedig ar dystiolaeth bresennol, ystyrir bod sgil-ddal rhywogaethau sensitif a sbwriel o offer pysgota yn risg isel tra ystyrir bod cyfanrwydd gwely'r môr yn fater risg uwch. Mae'r FMP yn amlygu camau gweithredu a fydd yn helpu i leihau effeithiau pysgota ar gyfanrwydd gwely'r môr, gan gynnwys cyfrannu at weithredu a chydlynu'r Gweithgor Effaith Fenthig.

Camau gweithredu ar gyfer lliniaru risgiau i gyfanrwydd gwely'r môr

Mae'r FMP yn cydnabod bod angen iddo ymgysylltu'n gryf ag ymagwedd strategol at leihau effeithiau pysgota ar wely'r môr.

Yn y diweddariad i [Strategaeth Forol y Deyrnas Unedig, Rhan 1](#) (2019), ymrwymodd Defra i asesu dichonoldeb sefydlu gweithgor partneriaeth, y cyfeirir ato yma fel y Gweithgor Effaith Fenthig, gyda rhanddeiliaid allweddol i amlygu datrysiadau ar gyfer lleihau effeithiau pysgota ar gyfanrwydd gwely'r môr. Pan fydd wedi'i gynnwys, dylai'r grŵp hwn ddarparu goruchwyliaeth a chyfeiriad strategol ar gyfer rhoi cyngor yn y dyfodol, gan gynnwys amlygu, datblygu a threialu opsiynau lliniaru neu reoli posibl, mewn partneriaeth.

Bydd yr FMP yn gwneud cyfraniad sylweddol at weithredu a chydlynu'r Gweithgor Effaith Fenthig. Bydd yr FMP yn hwyluso ymwneud a chydweddu ar draws pysgodfeydd cregyn bylchog i gefnogi graddau'r camau gweithredu sy'n ofynnol i liniaru effeithiau ar gyfanrwydd gwely'r môr. Bydd hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth i fapio ardaloedd sy'n cael eu pysgota ar hyn o bryd ochr yn ochr ag ardaloedd lle nad yw pysgota am gregyn bylchog yn cael ei ganiatáu neu'n ymarferol, fel mewn rhai MPAs a ffermydd gwynt alltraeth, a fydd yn gwella dealltwriaeth o ôl troed cyffredinol y bysgodfa. Bydd y gwaith hefyd yn ystyried p'un a allai newidiadau ychwanegol ddigwydd i feysydd pysgota cregyn bylchog yn y dyfodol, er enghraifft datblygiadau alltraeth newydd, neu rwydwaith MPA ehangach. Bydd asesiad wedi'i seilio ar dystiolaeth yn cael ei gynnal o'r rhyngweithiadau rhwng y bysgodfa cregyn bylchog a'r amgylchedd morol i lywio'r broses o ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer lleihau effeithiau niweidiol (fel yr amlinellir yn amcan 5 yr FMP) ac ystyried yr agweddau hyn yng nghyd-destun ehangach pwysau gofodol o weithgareddau morol eraill.

Mae rhagor o fanylion am risgiau amgylcheddol ychwanegol a amlygwyd yn yr SEA a sut byddant yn derbyn sylw wedi'u crynhoi yn amcanion yr FMP ac yn Atodiad 7.

Gweithredu, monitro ac adolygu

Gweithredu

Mae'r FMP cregyn y brenin yn amlinellu gweledigaeth a nodau ar gyfer y pysgodfeydd cregyn y brenin, ynghyd â pholisïau ac ymyriadau rheoli sy'n angenrheidiol i gyflawni'r nodau hyn. Mae cyhoeddi'r FMP hwn yn cynnig fframwaith rheoli newydd. Bydd y

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr mesurau a ddatblygir o dan y fframwaith hwn yn mynd trwy gam gweithredu dilynol a bydd angen dulliau priodol i'w cyflawni. Gallai dulliau o'r fath gynnwys mesurau gwirfoddol, amodau trwydded, is-ddeddfau cenedlaethol a rhanbarthol, ac offerynnau statudol. Bydd y cam gweithredu'n adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth bresennol, unrhyw gamau a gymerwyd drwy gydol y broses o ddatblygu'r FMP, a'r opsiynau a drafodwyd gyda rhanddeiliaid.

Bydd amseriadau penodol y broses hon yn dibynnu ar yr ymgynghoriad ar yr FMP, costau a manteision y cynigion a faint o amser y bydd ei angen i weithredu.

Bydd mapiau trywydd gweithredu dilynol yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd i sicrhau cynnydd. Mae'r FMP cregyn y brenin yn destun proses adolygu statudol 6 blynedd ar y mwyaf ar ôl cyhoeddi, pryd y bydd angen dangos tystiolaeth o'r hyn a gyflawnwyd trwy weithredu'r camau a'r mesurau hynny. Yn unol â'r asesiadau amgylcheddol strategol a ddatblygwyd ochr yn ochr â'r FMP hwn, bydd y broses adolygu hon yn cynnwys monitro ar gyfer effeithiau amgylcheddol posibl, er mwyn helpu i sefydlu p'un a oes angen unrhyw newidiadau i reolaeth y pysgodfeydd cregyn y brenin.

Monitro perfformiad

Bydd y broses o gyflawni camau gweithredu a mesurau'r FMP cregyn y brenin yn cael ei monitro a'i hasesu yn erbyn cyfres o ddangosyddion perfformiad er mwyn sicrhau bod y canlyniadau a'r camau gweithredu trosfwaol yn cyflawni nodau'r FMP a gofynion y Ddeddf yn effeithiol. Bydd dangosyddion perfformiad cychwynnol yn cael eu cynnwys yn yr FMP cyhoeddedig a'u datblygu ymhellach yn ystod y cylch adrodd cyntaf. Yn unol â'r Ddeddf, y canlyniad tymor hir ar gyfer stociau cregyn y brenin yn nyfroedd Cymru a Lloegr yw bod y pysgodfeydd hyn yn cael eu rheoli mewn ffordd sy'n sicrhau bod statws stoc yn cyrraedd ac yn aros ar lefel MSY neu uwch, a bod unrhyw effeithiau amgylcheddol sy'n deillio o weithredu'r FMP cregyn y brenin yn cael eu monitro ac yn derbyn sylw lle y bo'r angen. O ran stociau y mae'r data arnynt yn wael neu'n gyfyngedig, nid oes modd dweud pa mor gyflym y cyflawnir statws stoc sy'n cyrraedd ac yn aros ar lefel MSY. Felly, bydd yr asesiad cychwynnol o berfformiad yn seiliedig ar elfennau cyfranogol sy'n gallu dangos, cyn yr adolygiad chwe blynedd, bod cynnydd ystyrllon wedi cael ei wneud i gyflawni'r cynllun hwn.

Bydd yr elfennau cyfranogol hyn yn cynnwys y canlynol, ond nid yn gyfyngedig iddynt:

- Datblygu, gweithredu ac ariannu rhaglenni casglu data i ddarparu data cyfres amser rheolaidd i lywio rheolaeth
- Cytuno ar ffiniau stoc (neu unedau swyddogaethol)
- Sefydlu mynegeion digonedd gyda dwy flynedd o leiaf o adrodd effeithiol

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Arfaethedig ar gyfer cregyn y brenin yn Nyfroedd Cymru a Lloegr

Mae'r FMP cregyn y brenin yn cynnig nifer o fesurau rheoli penodol i gyflawni cynnydd a fydd yn cael eu profi yn erbyn y dangosyddion uchod. Yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad, a fydd yn penderfynu pa fesurau y dylid eu blaenoriaethu, bydd cynlluniau monitro manwl a dyddiadau cyflawni targed yn cael eu sefydlu. Bydd y cynlluniau hyn yn cynnwys cerrig milltir allweddol i gyflawni canlyniadau ar ôl cyhoeddi'r FMP terfynol yn ddiweddarach eleni a'r fersiwn nesaf ar adeg yr adolygiad chwe blynedd.

Adolygu a Diwygio'r FMP Cregyn Bylchog

Mae'n rhaid i'r FMP cregyn bylchog gael ei adolygu pan fo'n briodol a phob chwe blynedd o leiaf. Bydd yr adolygiad ffurfiol hwn yn asesu pa mor dda y mae'r FMP wedi cyflawni amcanion y Ddeddf.

Bydd canfyddiadau'r adolygiadau hyn yn llywio datblygiad fersiynau dilynol o'r FMP cregyn bylchog. At hynny, bydd yr FMP yn cael ei asesu'n gyffredinol yn rhan o'r broses o adrodd ar gyfraniad FMPs at gyflawni'r JFS. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod awdurdodau polisi pysgodfeydd yn adrodd ar y JFS bob tair blynedd ac yn adolygu'r JFS pryd bynnag yr ystyrir y bo'n briodol, neu o leiaf o fewn chwe blynedd o'i gyhoeddi.